

## Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1) – Eitem 6 Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

### Dull Gweithredu Cyffredinol

Y polisi a ddilyniir gan weinyddiaethau'r DU ar hyn o bryd mewn perthynas â'r holl drafodaethau a chyd-drafodaethau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw bod gennym ran i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ac felly, tan y byddwn yn gadael yr UE, byddwn yn parhau i gyflawni ein busnes beunyddiol yn y modd arferol.

I'r graddau hynny, byddwn yn parhau i gyfrannu at safbwynt y DU mewn perthynas â'r materion allweddol canlynol yn yr UE:

- Rheoli cwotâu a chyfleoedd dal pysgod ar gyfer 2019
- Rhwymedigaeth lanio'r UE a'r cynlluniau gwaredu mewn Dyfroedd Gogledd-orllewinol ar gyfer 2019
- Yr adolygiad o fesurau Cadwraeth Dechnegol yr UE a'r Rheoliad Rheoli.

### Cyfarfod y Cyngor Rhagfyr 2018

Yn gyffredinol, roedd canlyniadau cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr yn gadarnhaol i Gymru o ystyried rhai o'r heriau sylweddol sy'n cael eu hwynebu gan bysgodfeydd o amgylch y DU yn gyffredinol ac yn enwedig yn y Môr Celtaidd.

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet (fel oedd ei theitl ar y pryd) gyfarfod â chynrychiolwyr WMFAG ddechrau mis Rhagfyr i glywed yr amrywiaeth o flaenoriaethau a phryderon rhanddeiliaid yng ngoleuni cynigion Comisiwn yr UE ar gyfer cyfansymiau'r dalfeydd a ganiateir. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ran rhoi cyd-destun i safbwyntiau Cymru yn nhrefodaethau'r Cyngor.

Yn anffodus, oherwydd busnes brys y Cabinet yn dilyn penodi Prif Weinidog newydd Cymru, nid oedd y Gweinidog, sydd bellach wedi'i ailbenodi i'w phortffolio, yn gallu mynd i Frwsel. Fodd bynnag, cafodd ei swyddogion eu cefnogi'n dda gan Jim Evans o WFA a oedd ar gael drwy gydol yr amser. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol i fanteisio ar ddeallusrwydd Jim a'i gysylltiadau â gweddill diwydiant pysgota'r DU i lywio'r safbwynt swyddogol.

Roedd y trafodaethau ar gyfleoedd dal pysgod yn gymhleth eleni yn sgil cyflwyno'r Rhwymedigaeth Lanio yn gyfan gwbl (mwy isod) a gofynion y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a fydd yn cael eu cyflwyno maes o law. Mae'r tabl yn **Atodiad 1** yn datgelu i ba raddau y mae'r cwotâu wedi'u newid.

Roedd y sylw a roddwyd yn flaenorol ar 'rywogaethau atal' a sut i osgoi'r effaith hwn wedi golygu bod gan Gymru rôl ganolog i'w chwarae ar ran y DU o ran trafod y cytundeb ar Ddraenogiaid y Môr. Roedd y perthnasau a sefydlwyd yng ngrwpiau rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol yn bwysig am ein bod wedi gallu paratoi cydweithwyr yn Ffrainc a'r Iseldiroedd i ymdrin â dulliau gweddol afresymol y Comisiwn. Roedd y canlyniad a gaiff ei grynhoi yn Atodiad 2 yn un da, yn enwedig ar gyfer Cymru os nad y DU i gyd ond roeddem yn siomedig nad oeddem wedi dylanwadu ar y Comisiwn i symud tuag at gyfyngiad o 3 pysgodyn ar gyfer genweirwyr hamdden.

### Y Rhwymedigaeth Lanio

Mae egwyddor ganolog y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin bellach mewn grym ar gyfer pob rhywogaeth sy'n destun cwota ond **nid** yw'n dal i fod yn gymwys ar gyfer Draenogiaid y Môr.

## **Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1) – Eitem 6**

Fel yr adroddwyd i WMFAG o'r blaen, nid yw'r Rhwymedigaeth Lanio wedi cael gymaint o effaith yng Nghymru yn sgil y trafodaethau ar amryfal esemptiadau gan gynnwys o ran y Cynlluniau Gwaredu y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn ar gyfer ardal ranbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol.

Mae tasg yn parhau i sicrhau nad yw amodau/rheoliadau sy'n ategu'r esemptiadau hyn yn effeithio'n amhriodol ar ein fflyd sy'n gweithredu ar y glannau gan mwyaf. Er hynny, mae'n debygol y bydd angen rhai gofynion adrodd ar y gwarediadau i gynnal y cwotâu uwch er mwyn sicrhau'r potensial o lanio ychydig mwy o bysgod. Rydym yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ac eraill i lunio canllawiau cydymffurfio ar gyfer y diwydiant ond rydym yn rhagweld dull 'addysgol' o weithredu yn y lle cyntaf.

### **Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gimychiaid Wyog**

Arafwyd cryn dipyn ar y gwaith o ddatblygu'r Rheoliad Cadwraeth Dechnegol newydd wrth i Lywyddiaeth yr UE gael ei newid i Rwmania. Ar yr olwg ddiwethaf, roedd cyfyngiad yr UE wedi'i ddileu o'r ddogfen ddrafft ac ar hyn o bryd nid dyma yw ffocws y brif drafodaeth (sy'n hoelio sylw ar dreillio pwls). Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf os bydd unrhyw ddatblygiadau o ran yr UE.

**Y Gangen Bysgodfeydd Ryngwladol  
Ionawr 2019**

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1) – Eitem 6

Atodiad 1

Rhywogaeth	Ardal y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr	Cwota 2018 y DU	Cwota 2019 y DU	% newid	Parth 12nm Cymru	Parth Cymru
Lleden Chwithig	VIIa	10 tunnell	65 tunnell	Cynnydd o 554%	✓	
Lleden Chwithig	VII-f-g	64 tunnell	64 tunnell	Dim newid	✓	✓
Lleden goch	VIIa	469 tunnell	1572 tunnell	Cynnydd o 243%	✓	
Lleden goch	VII-f-g	77 tunnell	390 tunnell	Cynnydd o 406%	✓	✓
Penfras	VIIa	200 tunnell	223 tunnell	Cynnydd o 16%	✓	
Penfras	VII-b-k	214 tunnell	88 tunnell	59% yn llai	✓	✓
Hadog	VIIa	1536 tunnell	1791 tunnell	Cynnydd o 17%	✓	
Hadog	VII-b-k	691 tunnell	833 tunnell	Cynnydd o 21%		✓
Rhywogaeth	Ardal y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr	Cwota 2018 y DU	Cwota 2019 y DU	Newid	Parth 12nm Cymru	Parth Cymru
Gwyniad môr	VIIa	31 tunnell	281 tunnell	Cynnydd o 807%	✓	
Gwyniad môr	VII-b-k	2462 tunnell	2059 tunnell	14% yn llai	✓	✓
Morlas	VI a VII	2121 tunnell	2121 tunnell	Dim newid		✓

**Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1) – Eitem 6**

Cythraul y môr	VII	6027 tunnell	5934 tunnell	<b>2% yn llai</b>		✓
Penwaig Môr Hafren	VIII, f	465 tunnell	465 tunnell	<b>Dim newid</b>		
Lleden Fair	VII	1765 tunnell	2599 tunnell	<b>Cynnydd o 47%</b>		✓
Cegddu	VI a VII	11239 tunnell	14434 tunnell	<b>Cynnydd o 28%</b>		✓
<b>Rhywogaeth</b>	<b>Ardal y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr</b>	<b>Cwota 2018</b>	<b>Cwota 2019</b>	<b>Newid</b>	<b>Parth 12nm Cymru</b>	<b>Parth Cymru</b>
Morgathod	VI a VII (heb gynnwys d)	2507 tunnell	2632 tunnell	<b>Cynnydd o 5%</b>	✓	✓

## Atodiad 2

Yn dilyn Cyngor Gweinidogion Pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, bydd y cyfyngiadau a ganlyn yn gymwys:

### **Pysgota hamdden:**

Ar gyfer pysgodfeydd hamdden, gan gynnwys pysgota o'r lan, bydd cyfyngiad o un pysgodyn y pen fesul diwrnod yn gymwys rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref 2019.

### **Pysgota Masnachol:**

Dim ond cychod pysgota'r DU sydd wedi'u hawdurdodi i bysgota draenogiaid y môr gan Lywodraeth Cymru neu Weinyddiaeth Pysgodfeydd arall yn y DU fydd yn gallu pysgota am ddraenogiaid y môr yn fasnachol. Bydd yr awdurdodiad hwnnw yn seiliedig ar hanes blaenorol o lanio'r pysgodyn hwn rhwng 1 Gorffennaf 2015 a 30 Medi 2016. Mae modd trosglwyddo'r awdurdodiad hwn i gwch a ddefnyddir yn lle un arall sy'n eiddo i'r un perchennog cyhyd â nad yw'r cwch hwnnw'n pwyso'n fwy na bod ganddo injan mwy pwerus.

Ni chaniateir pysgota masnachol o'r lan.

Dylai unrhyw un sy'n ystyried prynu cwch pysgota newydd i bysgota draenogiaid y môr wirio gyda swyddfa eu pysgodfa leol i sicrhau bod y cwch wedi'i awdurdodi i bysgota draenogiaid y môr a bod yr awdurdodiad hwnnw yn ddilys ac yn un y gellir ei drosglwyddo.

Nid yw draenogiaid y môr yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth lanio. Os yw draenogyn y môr yn cael ei ddal sy'n llai na'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (42cm) a bod ei ddal yn golygu bod y cwch yn dal mwy o bysgod na ddylai, rhaid taflu'r pysgodyn yn syth yn ôl i'r môr.

Ni chaniateir pysgota drwy unrhyw gyfrwng rhwng mis Chwefror a Mawrth 2019.

Mae'r cyfyngiadau a ganlyn ar ddalfeydd ar gyfer cychod awdurdodedig yn gymwys:

- defnyddio pob math o dreillrwydi dyfnforol – uchafswm o 400kg pob deufis o sgil-ddalfeydd anorfod a dim mwy na 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch hwnnw ar unrhyw ddiwrnod unigol;
- defnyddio rhwydi sân – uchafswm o 210kg y mis o sgil-ddalfeydd anorfod a dim mwy na 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch ar unrhyw ddiwrnod unigol;
- defnyddio bachau a leiniau – cyfanswm o 5.5 tonnall y cwch bob blwyddyn;

## **Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1) – Eitem 6**

- defnyddio rhwydi drysu sydd wedi'u gosod – uchafswm o 1.4 tunnell y cwch fesul blwyddyn o sgil-ddalfa anorfod.